| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
| --- | --- | --- |
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**General Certificate of Secondary Education**

178/52

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU**

**PAPUR 2**

(Haen Sylfaenol – Graddau G i C)

A.M. DYDD MERCHER, 6 Mehefin 2007

(1 Awr)

| Arholwr yn unig | |
| --- | --- |
| **Cyfanswm y Marciau** | |

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes gennych ddigon o le, cewch barhau â'ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

**1.** Ticiwch (✓) y colofnau cywir i ddangos a yw **pob** dyfais yn cael ei defnyddio ar gyfer ***Mewnbynnu*** neu ***Allbynnu***. [6]

| *Dyfais* | *Mewnbynnu* | *Allbynnu* |
|---|---|---|
| Llygoden | | |
| Monitor | | |
| Argraffydd | | |
| Sganiwr | | |
| Uchelseinydd | | |
| Camera digidol | | |

**2.** Dau wahanol fath o gof yw ***ROM*** a ***RAM*** sydd i'w cael mewn cyfrifiaduron fel yr un a ddangosir isod.



*(a)* (i) Am beth y mae'r llythrennau ***ROM*** yn sefyll (yn Saesneg)? [1]

.................................... .................................... ....................................

(ii) Am beth y mae'r llythrennau ***RAM*** yn sefyll (yn Saesneg)? [1]

.................................... .................................... ....................................

*(b)* (i) I beth y mae ***RAM*** yn cael ei ddefnyddio? [1]

..............................................................................................................................................

(ii) Ticiwch (✓) y blwch cywir isod i ddangos pa **un** o'r gosodiadau hyn sy'n gywir. [1]

| | *Cywir* |
|---|---|
| Defnyddir ***ROM*** i storio data pan gaiff y cyfrifiadur ei ddiffodd. | |
| Meddalwedd yw ***ROM***. | |
| Mae ***ROM*** yn colli ei ddata ar ôl diffodd y cyfrifiadur. | |

*(c)* **Rhowch gylch am** y mesur **mwyaf** o gof a ddangosir isod. [1]

Gigabeit Megabeit Cilobeit

*(ch)* Enwch **ddau** fath gwahanol o ddyfeisiau storio cynorthwyol **magnetig** a ddefnyddir mewn cyfrifiaduron. [2]

(i) ..............................................................................................................................................


(ii) ..............................................................................................................................................

*(d)* Enwch **un** math o ddyfais storio gynorthwyol **optegol** a ddefnyddir mewn cyfrifiaduron. [1]


..............................................................................................................................................

**3.** Defnyddiwch y rhestr isod i gwblhau'r brawddegau sy'n dilyn.


**DMG *(OMR)*** **DNG *(OCR)*** **ANIM *(MICR)***




(i) Mae banciau'n gwneud defnydd mawr o ................................................................. . [1]




(ii) Un defnydd sy'n cael ei wneud o ................................................................. yw darllen codau post ar lythyrau. [1]




(iii) Mae'r Loteri Genedlaethol yn defnyddio ................................................................. i gipio data. [1]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**4.** Mae gan y *Ddeddf Gwarchod Data (DPA)* wyth egwyddor sylfaenol.

*(a)* Rhestrwch **dair** o'r egwyddorion hyn. [3]

(i) ..........

(ii) ..........

(iii) ..........

*(b)* Rhowch **un** hawl sydd gan unigolion o ran data sy'n cael eu cadw amdanynt ar gyfrifiaduron. [1]

..........

*(c)* Enwch **un** corff *(organisation)* sydd wedi'i eithrio o'r Ddeddf Gwarchod Data. [1]

..........

**5.** Dau fath gwahanol o rwydwaith cyfrifiadurol yw **RAL** *(LAN)* a **RAE** *(WAN)*.

(a) (i) Ysgrifennwch am beth mae **RAL** yn sefyll.

**Rhwydwaith A** .......... **L** ..........

(ii) Ysgrifennwch am beth mae **RAE** yn sefyll.

**Rhwydwaith A** .......... **E** .......... [3]

*(b)* Rhowch **ddwy** fantais sydd gan rwydwaith o'i gymharu â chyfrifiaduron arunig. [2]

(i) ..........

(ii) ..........

*(c)* Rhowch **un** ffordd o atal pobl heb awdurdod rhag cyrchu'r wybodaeth ar rwydwaith. [1]

..........

**6.** Mae gan bob cyfrifiadur *system weithredu*.

*(a)* Ysgrifennwch ystyr y term *system weithredu*. [1]

..............................................................................................................................................

*(b)* Ticiwch (✓) **ddau** flwch i ddangos pa dasgau sy'n cael eu cyflawni gan system weithredu. [2]

| *Tasg* | *Ticiwch (✓) **ddau** flwch* |
|---|---|
| Mae'n rheoli cof y cyfrifiadur. | |
| Mae'n rheoli disgleirdeb y monitor. | |
| Mae'n dweud wrth y defnyddiwr os nad oes papur yn yr argraffydd. | |
| Mae'n rheoli cyflymder yr argraffydd. | |

*(c)* Cwblhewch y tabl trwy gysylltu'r mathau canlynol o system weithredu â'r tasgau sydd wedi'u rhestru yn y tabl.
*Mae enghraifft wedi'i gwneud i chi.* [2]

**Amlfynediad** **Prosesu amser real** **Swp-brosesu**

| *Tasg* | *System Weithredu* |
|---|---|
| Rheoli robotau | **Prosesu amser real** |
| Llawer o drefnwyr teithiau'n cyrchu system bwcio teithiau awyren yr un pryd | |
| Cynhyrchu biliau nwy | |

*(ch)* Mae gan y mwyafrif o gyfrifiaduron Ryngwyneb Defnyddiwr Graffigol (RDG) *(Graphical User Interface (GUI)).*

Rhestrwch **ddwy** o nodweddion RDG. [2]

(i) ..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**7.** Mae'r tabl isod yn dangos peth o'r wybodaeth sy'n cael ei chadw ar gyfrifiadur siop fideo.

| *Enw'r ffilm* | *Math* | *Cyfrwng* | *Rhif Adnabod* | *Cost Rhentu (£)* |
|---|---|---|---|---|
| *Apollo* | Ffuglen wyddonol | *DVD* | 3651 | 3.99 |
| *High Noon* | Ffilm gowboi | Tâp | 3742 | 4.99 |
| *I Robot* | Ffuglen wyddonol | *DVD* | 3643 | 3.99 |
| *Notting Hill* | Rhamantus | *DVD* | 4644 | 3.99 |

*(a)* Ysgrifennwch nifer y *meysydd* a ddangosir yn y tabl uchod. [1]

....................................................................

*(b)* Ysgrifennwch nifer y *cofnodion* a ddangosir yn y tabl uchod. [1]

....................................................................

*(c)* Mae'r tabl yn cynnwys amrywiaeth o fathau data.

(i) Rhowch y math data ar gyfer *Cost Rhentu* (£). [1]

....................................................................

(ii) Rhowch y math data ar gyfer *Math*. [1]

....................................................................

(iii) Pryd y byddai perchennog y siop fideo yn diweddaru'r tabl? Rhowch **ddwy** enghraifft. [2]

(I) ....................................................................

(II) ....................................................................

**8.** Pan gaiff data eu mewnbynnu i system gyfrifiadurol mae'r meddalwedd yn gwirio'r data i sicrhau eu bod yn rhesymol. Enw'r broses hon yw *dilysu*.

*(a)* Rhowch **ddau** fath gwahanol o wiriad dilysu. [2]

(i) ..............................................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................................

*(b)* *Gwireddu* yw'r enw a roddir ar wirio bod data wedi cael eu copïo'n gywir o un cyfrwng (e.e. papur) i gyfrwng arall (e.e. disg).

Rhowch **ddau** ddull gwireddu. [2]

(i) ..............................................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................................

*(c)* Pan yw pobl yn ymuno â chlwb, gofynnir iddynt roi eu dyddiad geni (diwrnod, mis, blwyddyn) mewn grid fel yr un isod.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **D** | **D** | **M** | **M** | **B** | **B** |

Ticiwch (✓) y dyddiad a fyddai'n cael ei *dderbyn* gan y broses ddilysu.
Rhowch reswm pam y byddai'r **ddau** ddyddiad arall yn cael eu *gwrthod.* [3]

| *Dyddiad* | *Tic (✓) neu reswm dros ei wrthod* |
|---|---|
| 14 12 60 | |
| 03 Ebrill 71 | |
| 11 45 81 | |

**9.** Mae systemau cyfrifiadurol wedi'u mewnblannu *(embedded)* yn cael eu defnyddio mewn nifer mawr o ddyfeisiau.

*(a)* Esboniwch ystyr y term *system gyfrifiadurol wedi'i mewnblannu.* [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(b)* Rhowch **ddwy** enghraifft o ddyfeisiau/peiriannau sy'n cynnwys systemau cyfrifiadurol wedi'u mewnblannu. [2]

(i) ..............................................................................

(ii) ..............................................................................

*(c)* Rhowch **ddwy** o fanteision defnyddio robotau yn y diwydiant cynhyrchu ceir. [2]

(i) ..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

**10.** Mae cwmni hedfan wedi defnyddio system bwcio seddau gyfrifiadurol ers blynyddoedd lawer.

*(a)* Rhowch **ddwy** fantais *(benefits)* i'r cwmni hedfan o ddefnyddio system bwcio seddau gyfrifiadurol. [2]

(i) ..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

*(b)* Mae Dadansoddydd Systemau wedi cael ei gyflogi gan y cwmni hedfan i ddiweddaru a gwella'r system bresennol.

Rhowch **ddwy** dasg neu weithgaredd y byddai'r Dadansoddydd Systemau'n ymgymryd â nhw ym **mhob un** o'r camau canlynol. 2 × [2]

**Dadansoddi**

(i) ..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

**Dylunio**

(i) ..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Parhad yn unig.**